



Tywydd gwael

Dylai pob cyflogwr gael polisi yn ei le ar gyfer camau gweithredu i'w cymryd pan fydd tywydd drwg yn gallu effeithio ar agor ysgolion.

Efallai na fydd ysgolion yn gallu agor am resymau amrywiol, gan gynnwys y canlynol:

- y system wresogi'n torri;
- pibellau wedi rhewi neu fyrstio;
- ffyrdd wedi cau a/neu ddim mynediad i'r safle oherwydd eira trwm iawn neu dywydd drwg arall.

Mae gan rai awdurdodau lleol bolisiau lle mae penderfyniad canolog yn cael ei wneud gan yr awdurdod lleol am gau ysgolion yn ei ardal. Mewn llawer o awdurdodau lleol eraill, fodd bynnag, yr ysgolion unigol sy'n cael gwneud y penderfyniad.

Dylai penaethiaid sicrhau bod staff ysgolion a rhieni'n ymwybodol o bolisi'r ysgol/awdurdod lleol a sut byddant yn cyfathrebu â hwy petai'r ysgol yn cau. Mae gan nifer o ysgolion drefniadau â gorsafoedd radio lleol ac mae ganddynt gyfleusterau negeseuon testun/peiriant ateb/gwefan i gyfathrebu â rhieni.

Mae angen i athrawon sicrhau eu bod yn ymwybodol o sut bydd yr ysgol yn cyfathrebu â hwy petai penderfyniad yn cael ei wneud i gau'r ysgol.

Os gwneir penderfyniad bod y tywydd mor ddrwg fel nad yw'n briodol agor yr ysgol i ddisgyblion, ni ddylai fod rheswm i'r ysgol ddisgwyl i staff ddod i mewn i'r ysgol. Os yw'r amodau'n annerbyniol neu'n beryglus i ddisgyblion, mae'r un ystyriaethau'n berthnasol i staff. Os bydd yr ysgol yn cau, byddai'n rhesymol i'r ysgol ddisgwyl i staff ddefnyddio'r amser i wneud gweithgareddau cysylltiedig â gwaith priodol yn eu cartref.

Dylai'r penderfyniad ynghylch agor yr ysgol ai peidio ystyried y canlynol:

- cyngor gan yr heddlu ac asiantaethau eraill am amodau teithio a'r amodau o amgylch yr ysgol;
- cyngor gan yr awdurdod lleol, fel sy'n briodol;
- mynediad i safle'r ysgol i gerddwyr, gyrwyr a cherbydau argyfwng a diogelwch y safle;
- y staff sydd ar gael.

Nid yw gweithredu fel 'pennaeth arwrol' yn cael ei argymhell, h.y. ceisio cadw'r ysgol ar agor pan mae synnwyr cyffredin a chynghor gan yr heddlu ac asiantaethau eraill yn dweud na ddylid teithio, na rhawio eira er mwyn ceisio agor yr ysgol, er gwaetha'r amodau a'r rhybuddion.

Os gwneir penderfyniad i gau'r ysgol, dylai hwn gael ei ystyried fel cau na ellir ei osgoi.

Pan fydd ysgol wedi cau, dylid gwrthod yn bendant unrhyw awgrym gan reolwyr yr ysgol neu'r cyflogwr y dylid disgwyl i athrawon wneud iawn am hyn drwy wneud y canlynol:

- rhoi o'u gwyliau;
- defnyddio unrhyw rai o'u 5 diwrnod athrawon;
- colli amser cynllunio, paratoi ac asesu (CPA) neu egwylliau cinio; neu
- colli cyflog.

Dylid datgan yn glir y bydd athrawon yn gweithredu'n broffesiynol, fel maent yn ei wneud bob amser, i wneud

Parhad drosodd

popeth o fewn eu gallu yn ystod eu gwersi i sicrhau bod y disgyblion yn rhoi sylw i'r holl waith y mae'n rhaid iddynt ei wneud ac y maent wedi'i golli efallai oherwydd cau.

Os yw'r ysgol ar agor fel arfer, dylai staff wneud pob ymdrech resymol i ddod i mewn i'r gwaith.

Mae hyn yn golygu asesu argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus, neu os ydynt yn gyrru i'r gwaith fel rheol ac yn methu gwneud hynny, ystyried ymarferoldeb cerdded i'r gwaith os ydynt yn byw'n gymharol agos ac yn heini ac abl i wneud hynny.

Ni ddylid disgwyl i athrawon gerdded milltiroedd mewn tywydd difrifol i gyrraedd y gwaith.

Os oes rhybuddion am dywydd difrifol yn yr ardal lle maent yn byw ac os yw'r heddlu ac asiantaethau eraill yn cynghori pobl i beidio â theithio, bydd rhaid i'r athrawon yr effeithir arnynt gysylltu â'u pennaeth i drafod y sefyllfa.

Efallai fod yr ysgol ar agor ond nad yw rhai disgyblion a staff yn gallu mynd yno.

Bydd angen i benaethiaid asesu'r gymhareb staff-disgybl i sicrhau eu bod yn gallu gweithredu'n ddiogel. Efallai y bydd yn rhaid iddynt gynghori rhai grwpiau o ddisgyblion i aros gartref.

Mae angen i benaethiaid sicrhau eu bod yn cynnal asesiad risg iechyd a diogelwch.

Os bydd unrhyw anawsterau'n codi i athrawon neu arweinwyr ysgolion sy'n aelodau o'r NASUWT, cysylltwch â'r NASUWT.

Pan fydd raid cau'r ysgol yn ystod y diwrnod ysgol

Mae cau'r ysgol yn ystod y diwrnod ysgol yn creu nifer o broblemau. Felly, dylai arweinwyr ysgolion a chyflogwyr fonitro rhagolygon y tywydd a ffactorau eraill (megis cynlluniau i atal cludiant cyhoeddus). Os bydd problemau oherwydd tywydd garw'n debygol o godi yn ystod y dydd, dylent ystyried cau'r ysgol cyn yr amser cychwyn arferol, hyd yn oed os yw'r amodau ar y pryd yn dderbyniol.

Os bydd y tywydd yn dirywio yn ystod y dydd nes y bydd yn ddigon drwg i orfodi cau'r ysgol, yna dylai'r ysgol ddilyn ei threfniadau arferol i roi gwybod i'r rhieni am y penderfyniad. Wrth gwrs, mae diogelwch y disgyblion yn bwysig. Bydd angen i'r disgyblion hynny nad oes modd eu hanfon adref gael eu goruchwylio nes y bydd modd i rywun eu casglu. Ond, mae iechyd, diogelwch a lles y staff yr un mor bwysig. Felly, mae'n afresymol disgwyl i'r staff i gyd aros ar y safle i oruchwylio disgyblion, a dylid galluogi i staff adael y safle hefyd gynted ag y bydd niferoedd y disgyblion yn gostwng ddigon i ganiatáu hynny. Dylid gwneud hynny ar sail y risg y maent yn ei wynebu (e.e. drwy asesu i weld pwy sy'n wynebu'r risg mwyaf i'w diogelwch, megis y rheiny sydd â'r teithiau hiraf i gyrraedd adref, neu aelodau anabl o'r staff). Dylai'r ysgol benderfynu o flaen llawn, yn rhan o'r broses gynllunio ar gyfer tywydd drwg, pa staff fydd yn aros i sicrhau diogelwch y disgyblion os ceir tywydd garw.

Mae'r tywydd yn gallu amrywio'n arw o ardal i ardal pan fydd y tywydd yn ddrwg, a dylai'r ysgol fod â chynlluniau ar gyfer anfon staff a disgyblion adref yn ystod y dydd os bydd hi'n dod yn amlwg bod risgiau i ddiogelwch yn cynyddu yn ardaloedd eu cartrefi hwy, hyd yn oed os yw'r amodau o amgylch yr ysgol yn dderbyniol.

COVID-19

Ni ddylid addasu asesiadau risg COVID-19, na gostwng y camau diogelu rhag y firws, o ganlyniad i dywydd garw. Yn wir, efallai y bydd gofyn adolygu a/neu ail ysgrifennu'r asesiad risg presennol, ac efallai y byddai'n ddefnyddiol i ysgolion gynllunio beth i'w wneud yn y sefyllfa ddigonedd o amser o flaen llaw. Mae'r angen am gadw rhagofalon digonol yn eu lle yn arbennig o bwysig mewn perthynas â glynu at y swigod a'u cadw'n ddiogel – ni ddylid cyfuno dosbarthiadau o wahanol swigod â'i gilydd. Felly bydd hi'n hanfodol ystyried argaeledd y staff wrth benderfynu a ddylid agor yr ysgolion.

Llifogydd

Dylid darllen y cyngor hwn ar y cyd â chyngor cyffredinol yr NASUWT ar dywydd gwael.

Mae gan gyflogwyr ddyletswydd cyfreithiol i sicrhau bod iechyd a diogelwch pob cyflogai'n cael ei ddiogelu. Nid yw o fudd i neb gofyn i staff beryglu'u bywyd neu'u hiechyd naill yn ystod llifogydd neu ar ôl i'r llifogydd ddod i ben.

Ni ddylai penaethiaid byth ofyn i unrhyw aelod staff deithio mewn ardal sydd wedi profi llifogydd. Ni ddylai aelodau yrru mewn ardaloedd sydd o dan ddŵr oni bai fod yn rhaid iddynt, ac ni ddylent byth geisio gyrru drwy lifddwr. Ar wahân i'r posibilrwydd y gall cerbyd gael ei sgubo i ffwrdd, mae llifddwr hefyd yn debygol o fod wedi'i halogi â charthion.

Ni ddylai aelodau geisio cerdded drwy lifddwr i ddod i'r gwaith. Mae'n hawdd iawn cael eich sgubo ymaith gan geryntau neu ddod i gysylltiad â dŵr wedi'i halogi. Hyd yn oed mewn dŵr bas iawn, fe all fod llawer o beryglon o dan yr wyneb, fel tyllau heb orchudd iddynt. Yn aml, mae grym y dŵr yn symud caeadau tyllau archwilio, er enghraifft.

Mae llifogydd yn gallu achosi i adeiladau, gan gynnwys ysgolion, golli eu cyflenwad dŵr neu drydan, hyd yn oed y tu hwnt i'r ardal sydd wedi dioddef y llifogydd yn uniongyrchol. Ni ddylid disgwyl i athrawon weithio heb gyflenwad digonol o ddŵr ffres a chyfleusterau glanweithdra.

Mae hyn yn groes i Reoliadau'r Gweithle (lechyd, Diogelwch a Lles). Fel arfer, dylai staff mewn ysgolion y mae llifogydd wedi effeithio arnynt gael eu hanfon adref. Ni ddylid disgwyl i neb weithio mewn adeiladau sydd o dan ddŵr.

Ar ôl i'r llifogydd ostegu

Mae marwolaeth ac anafiadau yn risg ddifrifol ar ôl i'r dŵr ostegu ac mae nifer o ragofalon y dylid eu cymryd. Ar ôl y llifogydd, dylai cynrychiolwyr yr NASUWT gwrdd â'r pennaeth i wneud yn siŵr fod yr ysgol yn ddiogel i bawb ddod yn ôl.

Er ei fod yn ddealladwy y bydd athrawon eisiau cydweithio ag eraill i helpu, ni ddylid eu rhoi mewn unrhyw berygl pellach diangen ac ni ddylai neb fynd yn ôl i mewn i adeilad nes y bydd wedi'i archwilio'n iawn a bod asesiad risg wedi'i gynnal. Mewn achosion eithriadol, bydd angen archwilio strwythur yr adeilad cyn y caniateir i neb fynd i mewn.

Ni ddylid disgwyl i athrawon helpu gyda'r gwaith glanhau.

Os bydd staff yn gysylltiedig â'r gwaith glanhau, dylid cynnal asesiad risg cyn iddynt gychwyn ar y gwaith a dylid darparu cyfarpar diogelu personol priodol.

Cyn y bydd yr ysgol yn ailagor, bydd angen i adeiladau gael eu sychu a bydd angen iddynt hefyd gael eu glanhau a'u diheintio. Mae llifddwr yn cynnwys nid dim ond silt ond carthion hefyd.

Rhaid i'r holl arwynebau sydd wedi'u halogi gael eu glanhau'n drylwyr a'u diheintio, yn ogystal â chael eu sychu.

Rhaid i'r ysgol fod yn addas i'r diben, gyda chyfleusterau gwresogi a glanweithdra digonol. Ni ddylai ysgol ailagor o gwbl os yw'r systemau gwresogi a/neu lanweithdra yn annigonol.

Ffwng a llwydni

Gall lleithder hybu twf ffwng a llwydni, sy'n gallu achosi alergeddau a phroblemau anadlu os caiff ei fewnanadlu (gweler hefyd cyngor yr NASUWT ar llwydni): www.nasuwat.org.uk/HealthandSafety.

Gwresogi

Os bydd ysgolion yn defnyddio gwresogyddion olew neu nwy cludadwy i sychu adeiladau, mae'n bwysig sicrhau bod awyriad digonol ar gael ac nad ydynt yn cael eu gosod wrth ymyl defnyddiau fflamadwy. Ni ddylid byth defnyddio generaduron petrol neu diesel y tu mewn i adeiladau oherwydd perygl gwenwyn carbon monocsid. Ni ddylid defnyddio gwresogyddion olew/nwy dros dro pan fydd disgyblion yn bresennol.

Offer trydanol

Ni ddylid defnyddio unrhyw offer trydanol y gallai llifddwr fod wedi effeithio arno nes ei fod wedi cael ei archwilio a pherson cymwys wedi cadarnhau ei fod yn ddiogel.

Hefyd, ni ddylid troi'r cyflenwad trydan a nwy ymlaen nes ei fod wedi'i archwilio yn yr un modd.

Cemegau

Os oes unrhyw ddeunyddiau, fel cemegau, yn cael eu storio yn yr adeilad, efallai y bydd y llifddwr wedi effeithio ar y rhain hefyd. Mewn rhai achosion, efallai y bydd cyfansoddiad y deunydd wedi newid neu efallai y bydd deunyddiau peryglus wedi gollwng.

Drysau tân

Dylai cynrychiolwyr yr NASUWT sicrhau bod ysgolion wedi cadarnhau bod unrhyw ddeunydd a allai fod yn beryglus oherwydd ei fod wedi'i ddifrodi gan ddŵr, wedi cael ei archwilio ac, os oes raid, y ceir gwared â'r deunydd yn ddiogel.

Dylai cynrychiolwyr yr NASUWT hefyd sicrhau bod drysau allanol, ac allanfeydd tân yn arbennig, wedi cael eu harchwilio i sicrhau eu bod yn gwneud eu gwaith cyn y caniateir i bobl ddod yn ôl i'r adeilad a bod larymau tân a systemau goleuo mewn argyfwng wedi cael eu harchwilio gan berson cymwys cyn y defnyddir yr adeiladau.

Fermin

Ar ôl llifogydd, mae llygod mawr a fermin arall yn aml yn symud o adeiladau sydd wedi cael llifogydd i adeiladau eraill yn y cyffiniau. Dylai aelodau mewn ardaloedd sydd wedi profi llifogydd neu sy'n agos at ardaloedd o'r fath fod ar eu gwylidwriaeth a rhoi gwybod am unrhyw arwyddion o bla o fermin yn syth.

Colli eitemau personol

Efallai oherwydd llifogydd y bydd aelodau yn colli eitemau personol neu y bydd difrod wedi'i wneud iddynt yn y gweithle. Mae'n arfer da cyfyngu'r eitemau personol yn y gweithle i'r rheini sy'n ofynnol i gefnogi athrawon yn eu gwaith, gan fod unrhyw eitemau yn agored i gael eu difrodi neu eu dwyn.

Mae hefyd yn arfer da cadw rhestr o eitemau personol yn y gweithle. Os bydd aelodau yn dioddef colled neu ddifrod, dylent wneud rhestr lawn o'r eitemau sydd wedi cael eu colli neu eu difrodi.

Os oes modd, dylid tynnu lluniau o'r eitem sydd wedi'i difrodi. Dylid rhoi'r rhestr i'r pennaeth ynghyd â chais ysgrifenedig wedi'i dyddio i'r rhestr gael ei chyflwyno fel hawliad yn erbyn yswiriant y cyflogwr.

Dylid cadw copi o'r rhestr a'r cais ysgrifenedig. Os bydd unrhyw anhawster yn codi mewn perthynas â'r cyflogwr sy'n darparu yswiriant, dylid cysylltu â'r NASUWT i gael rhagor o gyngor.

Cefnogaeth i aelodau y mae eu cartrefi yn dioddef llifogydd

Mewn rhannau o'r wlad sydd wedi dioddef llifogydd fe fydd ysgolion nad ydy'r llifogydd wedi effeithio arnynt yn uniongyrchol ond bod cartrefi aelodau wedi bod yn rhannol o dan ddŵr neu heb gyflenwad trydan a dŵr.

Dylai cynrychiolwyr yr NASUWT weithio gyda'r penaeithiaid i sicrhau bod y cyfryw aelodau'n cael cymaint o gefnogaeth â phosibl.

Gallai hyn gynnwys cael defnyddio cawodydd a chyfleusterau ymolchi yn y gwaith, amser yn rhydd o'r gwaith neu gymorth arall yn ôl yr angen.

Efallai y bydd rhai aelodau'n wynebu caledi ariannol difrifol oherwydd difrod dŵr i'w cartrefi ac eiddo ac efallai y byddant yn gymwys i gael Cymorth Llesiannol gan yr NASUWT. Cysylltwch â'r NASUWT i gael rhagor o wybodaeth.

'Rhybuddion coch' y Swyddfa Dywydd

Mae'r Swyddfa Dywydd yn cyhoeddi rhybuddion coch pan mae'n rhagweld tywydd eithriadol arw ac y mae perygl i fywyd. Os cyhoeddir rhybudd coch, bydd hi'n anodd cyfiawnhau agor ysgol.

Os bydd unrhyw aelod o NASUWT yn gweithio mewn ardal sydd wedi derbyn rhybudd coch ac mae'r ysgol ar fin agor, neu heb wneud cynlluniau i gau, dylent gysylltu ag NASUWT i gael rhagor o gyngor.

Os nad oes cynrychiolydd NASUWT yn eich ysgol a bod angen cymorth arnoch i roi'r cyngor hwn ar waith, cysylltwch â'r NASUWT.

